# Yr ASB yn sicrhau atafaeliad gwerth dros £30,000 ar ôl i ‘smokies’ gael eu gwerthu’n anghyfreithlon

Cynhaliwyd gwrandawiad atafaelu, yn unol â’r Ddeddf Elw Troseddau, yn Llys y Goron yn Isleworth fis diwethaf, lle gorchmynnwyd i Ian Thomas, 46, o Heol Gorseinon, Penllergaer, Abertawe, dalu £31,250.51 am ei ran wrth fynd ati’n anghyfreithlon i ladd, cynhyrchu a dosbarthu ‘smokies’ ledled Cymru, Gogledd Iwerddon, Lloegr a’r Alban.

Dafad neu afr sydd wedi’i ladd mewn modd anghyfreithlon yw ‘smokie’. Ar ôl lladd yr anifail, caiff y carcas – sydd heb ei flingo – ei losgi â chwythlamp. Cynhelir y broses hon mewn safle heb ei gymeradwyo, sy’n annhebygol o gydymffurfio â’r safonau a’r gofynion hylendid llym ar gyfer paratoi cig neu fwyd.

> Mae’r achos hwn yn dangos ein bod ni nid yn unig yn fodlon erlyn y rhai sy’n cyflawni troseddau bwyd, ond y byddwn ni hefyd yn eu herlid i adennill yr elw maen nhw wedi’i wneud o’u gweithgarwch anghyfreithlon ac i adennill arian trethdalwyr a wariwyd er mwyn cynnal gwaith ymchwilio a’u herlyn.
>
> Gall troseddau bwyd gael effaith ddifrifol sy’n peryglu cymunedau, a gallant hefyd danseilio busnesau cyfreithlon, a’r buddsoddiad a’r twf economaidd sy’n dod law yn llaw â nhw.
>
> Rydym yn cefnogi busnesau cyfreithlon, ac rydym yn eu cefnogi’n rhagweithiol drwy amharu ar yr elfen droseddol a’i hatal.
>
> David Williams, Uwch-ymchwilydd Ariannol yn yr NFCU

Os ydych chi’n amau twyll bwyd, rhowch wybod i’r tîm Trechu Trosedd Bwyd yn Gyfrinachol ar food.gov.uk/report neu drwy ffonio 0800 028 1180 (0207 276 8787 ar gyfer ffonau symudol a galwadau ffôn o’r tu allan i’r DU).